

Specialist Estates Services



Introduction from Neil Davies, Director of Specialist Estates Services

The transition from summer to autumn coincides with the political conference season where traditionally everyone headed to the seaside. The venues were originally chosen for the plentiful supply of cheap accommodation rather than the weather, which often caught delegates by surprise as strengthening winds put pay to many a broly designed for showers in Kensington rather than gales in Blackpool.

Autumn has also been the season for national estates and facilities conferences, with the jewel in the crown being IHEEM's Healthcare Estates Conference – 'Where Innovation, Technology and Leadership Meet'. It features the UK's largest trade exhibition for the sector, with over 240 exhibitors and 4,500 attendees expected. This year's conference is also hosting the International Federation of Hospital Engineering (IFHE) Europe Conference, with content reflecting a more international dimension.

The conference integrates four work streams: Strategy and Leadership, Engineering and Facilities Management, Planning, Design and Construction and Innovation. The conference features more than 70 presentations over the two days. It provides a wonderful opportunity to keep abreast of the latest developments and thinking in healthcare estates and facilities, visit trade exhibits and network with colleagues from across the UK and beyond.

In addition, the conference can form a major element of your Continuing Professional Development (CPD) requirements.

This year's conference takes place on 8-9 October at the Manchester Central Convention Centre, just a few days after the same venue hosts the Conservative Party Conference. As much as you might wish to avoid it, I suspect both conferences will have the occasional reference to Brexit!

Regards, Neil

Neil.Davies4@wales.nhs.uk | 02920 905382

Inside this issue...

Property team recognised by HM Land Registry

Page 1

All Wales Endoscope Forum

Page 2

Staff news

Page 3

OccupEye space utilisation service

Page 4

Latest technical publications

Page 5

On Yer Bike Club

Page 5

History Corner: Dewi Sant Hospital, Pontypridd

Page 6

Property award from HM Land Registry



Centre: Shane Bartlett, Head of Public Sector Strategy at HM Land Registry, handing SES's certification to Clive Ball, Head of Property. Also pictured, from left to right, are Kyle Robinson of the Public Sector Engagement Team for HM Land Registry, Mark Miller, Lowri Evans and Jamie Evans from the SES Property team.

Our Property department has been recognised by HM Land Registry for its work in registering all freehold land assets – the first Public body in England and Wales to complete this.

Shane Bartlett, Head of Public Sector Strategy at HM Land Registry travelled to Companies House in Cardiff to hand over a certificate of completion to Clive Ball, Head of Property at SES and to meet the team who have made this happen.

Shane said: *"To be the first public body in England and Wales to have completed registration of its freehold land assets is a significant milestone and one which the team should feel justifiably proud of."*

"It reflects a positive commitment by the SES Property team in securing its interests under HM Land Registry's state guarantee and supporting government's commitment to transparency."

Around 14% of land in England and Wales is not registered (19% in Wales), HM Land Registry is working towards achieving comprehensive registration of all freehold land by 2030. Initially the drive is prioritising registration of public sector land and property by 2025.

HM Land Registry's Public Sector Engagement Team (PSET) was set up in January 2018 to work with all public sector bodies to

register their unregistered land to achieve comprehensive registration, a key component of their business strategy.

Whilst compulsory registration of land was fully implemented in England and Wales in 1990, since then the SES property team has worked closely with HM Land Registry to ensure that any pre-1990 unregistered NHS Wales land and property was voluntarily registered.

During 2018, Property Officer Mark Miller along with Assistant Technical Officers Lowri Evans and Jamie Evans, worked with HM Land Registry's PSET to scrutinise the NHS Wales estate to ensure all holdings had been recognised.

Clive Ball, Head of Property, said: *"The SES Property team has long recognised the benefits obtained by registering land and property."*

"We're delighted to have been recognised by HM Land Registry as having completed a voluntary programme of registration of freehold assets on behalf of NHS Wales – the first public body in England and Wales to be so recognised."



Clive Ball | Head of Property
Clive.Ball@wales.nhs.uk | 0292090 4106

All Wales Endoscope Forum



It was a full house at the All Wales Endoscope Forum as colleagues from all over Wales came together to discuss issues and share best practice.

Our Engineering section held the one-day seminar and workshop in Builth Wells in June for all Approved/Authorised Persons (APs) across the health boards and trusts in Wales to provide an update on matters that affect them from an Authorising Engineer (AE) perspective.

As well as a great day for learning the event is also a great networking opportunity for APs across all engineering disciplines. More than 60 delegates from around NHS Wales travelled to the Royal Welsh Showground for the seminar.

John Prendergast, Senior Decontamination Engineer for SES, opened the day and setting out the agenda for the day.

First to present was Steve Wilton, Production Manager for Cwm Taf Morgannwg University Health Board who looked at the manual cleaning of Endoscopes followed by John Jepson from Envirogen who gave a talk on the methods of water purification.

PFE Medical representatives Sohail Shami and Vanessa Blount gave a presentation on UV disinfection of ENT endoscopes.

After lunch Graham Stanton from IHEEM looked at the policy on the appointment processes for the role of APs before our Decontamination Engineer Mark Fumage gave a comprehensive talk on the role and responsibilities of the AP D which gave Estates Officer Andrew Kidger gave his view on the AP D role.

Kenny Ader from Cantel reinforced the importance of correct chemical storage. Discussion opened up to the delegates with some great points to think about including endoscope decontamination in Primary Care and the importance of policy review and of trainer competence.

Supporting the day were a number of sponsors, including Serchem, Cantel, PFE Medical, Isopharm, Getinge, Steris, iMed, Wassenburg, MMM Group, Pentax and LTE.



The conference was very well received by the delegates, with attendees commenting:

"The water presentation was outstanding; I also enjoyed the group discussions to give me a better insight into decontamination"

"All round good event"

"The overall agenda was relevant and informative"

"All good and informative"

"Excellent – well delivered topics"

If you would like to find out more about presentations at this conference, or about any future events, then please contact:



John Prendergast

Senior Decontamination Engineer

John.Prendergast@wales.nhs.uk | 0292090 4097

Staff news



David
Meatyard



Kevin
Ridge



Nicole
Kruger



Simon
Russell



Stuart
Hanger



Charlotte
Egerton



Craig
Morgan

Since the May edition of the newsletter **David Meatyard**, Principal Estates Advisor, retired as planned. At the end of June, Head of Engineering **Kevin Ridge** retired after eight years of service with SES.

In May, **Nicole Kruger**, Property Surveyor (Primary Care), left SES to take up an opportunity to work closer to home in Bristol – a 15 minute walk to work replaces a 90 minute drive!

All three made a significant contribution in providing excellent professional services to our customers and will be sorely missed.

Simon Russell, Principal Electrical Engineer, has been appointed as the new Head of Engineering and commenced his duties on 1 July.

Some six months after the departure of our previous fire safety advisor we are

delighted to announce the appointment of **Stuart Hanger**. Stuart, who started with us on 8 July, has more recently been working for Serco as a fire safety and compliance manager, but prior to that served for 23 years in the Royal Air Force.

Welcomed to SES in August, **Charlotte Egerton** and **Craig Morgan** commenced their duties as Property Surveyor (Primary Care) and Environmental and Facilities Management Advisor respectively.

Charlotte moved back to Wales from a private sector job in Shropshire to join us and has a wealth of surveying experience predominantly gained from working in local councils within Wales. Craig has joined us from the facilities management team at Welsh Blood Service.

If you are interested in joining SES our current vacancies can be found [here](#).

OccupEye space utilisation service

As space is expensive it's incumbent on us as public sector organisations to make the most efficient use of it as possible. Inefficient use of space is not something that is usually on the average NHS employees' radar, but even when it is and it's recognised that space is being poorly used, evidence to support change is usually only anecdotal.

A funding opportunity arose at the end of 2018 that enabled SES to create a service which can now provide the evidence required for decision-making in support of change.

The service is based around OccupEye, a system designed to capture space data via wireless PIR heat and movement sensors placed under desks.



The sensors detect the presence of a member of staff by motion or heat and transmit this data to a network receiver which in turn transmits it on to a cloud-based analytics system which can provide real-time space utilisation information for the customer. The sensors can be deployed for any period of time to meet your requirements.

Some of the benefits of deploying the OccupEye sensors are:

- Improved accommodation and estates strategies;
- Potential to free up under-utilised space for the current occupier or to be made available to the market; and
- Achieve cash-releasing savings should space become available for disposal.

Our OccupEye service is free to NHS Wales organisations. The service will typically include:

- A survey of the designated area;
- Deployment of the sensors and network receiver, i.e. installation under desks and in meeting rooms if required;
- Development of a floor plan for the study area if not already available.
- Creation of a project on the cloud-based analytics system;
- Provision of utilisation information during the period of the study;
- Creation and delivery of a report outlining the outcome of the data captured at the OccupEye analytics dashboard once the study is completed; and
- Provision of professional property-related support as required to assist in the implementation of the report findings.

It is important to note that no personal data will be captured in this process. Each desk will be numbered in the system for dashboard purposes only. Standard letters outlining the process and allaying any fears around staff being identified during the project are available to customers to issue to staff working in the survey area.

We currently have 190 sensors so if you are interested in finding out more about the service and system please contact either:



Martin Cooper | Business Manager
Martin.Cooper@wales.nhs.uk | 0292090 4085



Clive Ball | Head of Property
Clive.Ball@wales.nhs.uk | 0292090 4106



Andrew Nash | Principal Property Surveyor
Andrew.Nash@wales.nhs.uk | 0292090 4111

To book the service please use the following email address: SES.OccupEye@wales.nhs.uk.

Latest technical publications

The following document has been published by SES since April 2019:

 **WHBN 04-01: Adult Inpatient Facilities: Supplement 2 – Negative Pressure Suites**
(Published 24/06/19)

This document sets out practical guidance on how to provide safe and effective isolation facilities for infectious patients (source isolation) that are simple to use and meet the requirements of Welsh Government as outlined in WHC (2018) 033.

Welsh Health Building Notes (WHBNs)

Guidance documents for the planning and design of a range of healthcare buildings that provide specialist services in Wales.

Welsh Health Technical Memoranda (WHTM)

Documents which provide technical guidance on a wide range of specialist systems within the healthcare estate in Wales.

For further information please contact:



Jessica Morgan | Information Officer
Jessica.Morgan2@wales.nhs.uk | 0292090 4118

On Yer Bike Club

Colleagues at Specialist Estates Services are using pedal power to keep fit with a new social biking club entitled *On Yer Bike Club!*

With wellbeing, beer and coffee in mind, the club was established by property surveyor Paul Cottrell with the aim of exploring cycle routes across South Wales and beyond. Open to all at SES, Paul was very quickly joined by other biking enthusiasts Business Manager Martin Cooper, Principal Property Surveyor Andrew Nash, Framework Manager Kevin Ray, Senior Fire Safety Advisor Anthony Pitcher, CAD Operator Lowri Evans and recently retired Principal Estates Advisor David Meatyard.

The club's inaugural ride involved peddling from Companies House in Cardiff via Penarth Marina across the Barrage and into Cardiff Bay for a well earned refreshment (pictured) before cycling back to the office, an impressive 12 miles in total. Due to the success of the ride and the view that the club will now go from strength to strength Paul has promised to dispense with cycling in jeans and will now buy and wear sufficiently padded lycra shorts instead. The other club members have promised not to laugh.



Plans for clocking up more miles have been hatched with cycle rides across Cardiff, the Vale and Caerphilly planned for the coming weeks and months. Don't forget to toot your horn if you spot us holding up traffic in an area near you!

Leader Paul stated: *"We take exercise very seriously in SES, walking back and fore to the photocopier, raising cups of coffee or tea to our mouths are just a couple of examples. Cycling was the obvious next step, who knows what's next..."*

History Corner: Dewi Sant Hospital, Pontypridd



Through its various guises, SES has had a long association with the health estate in Wales. It's difficult to predict the future of hospital construction in Wales, but the past can be found in our archives. We hope you find the following article of interest.


Having good transport links to hospitals is a necessity and if you look closely in the car park of Dewi Sant Hospital in Pontypridd, you will see a piece of transport history.

Not only did the hospital have its own railway tunnel that ran under the Graig and Treforest, but it also had its own station, which would have dropped passengers right outside the building more than 100 years ago.

The hospital on Albert Road, Graig, was originally built as the Pontypridd Union Workhouse in 1865. Designed by G.E. Robinson of Cardiff, its construction cost was around £7,000 (equivalent to £860,000 today) and had capacity for more than 310 people.

The railway was opened later on 8 July 1889; firstly to take coal from the Rhondda to Cardiff Docks, before opening to passengers in 1896.

At the turn of the twentieth century the workhouse was extended to include an infirmary and isolation hospital. It later became known as Central Homes before becoming the Graig Hospital for the chronic sick under the NHS.



In July 1930 the railway closed for good and although the platform could still be seen up until the 1970s, that too has disappeared under the car park. However, the tunnel entrance is still visible today in the hospital's car park, while the south tunnel entrance is in the grounds of the University of South Wales in Pontypridd.

During the mid 1960s the original buildings on the site were demolished and Dewi Sant hospital was built; pictured above are the original buildings and construction of the modern hospital.

SES holds an extensive picture library of Welsh hospital estates and we would welcome any photos which could expand our records. To submit photos or if you would like us to feature your hospital in a future edition of this newsletter, please contact:



Jessica Morgan | Information Officer
Jessica.Morgan2@wales.nhs.uk | 0292090 4118

Contact Specialist Estates Services



Those working within NHS Wales can either use our [services directory](#) or [staff list](#) to find the right person for the job, and those outside NHS Wales can look at the staff list on our [website](#).



Specialist Estates Services
3rd Floor, Companies House
Crown Way
Cardiff
CF14 3UB



02920 904118



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Partneriaeth
Cydwasaethau
Shared Services
Partnership

Gwasanaethau Ystadau Arbenigol



Partneriaeth
Cydwasaethau
Gwasanaethau Ystadau Arbenigol
Shared Services
Partnership
Specialist Estates Services

Hydref 2019
eGylchlythyr 8

**Cyflwyniad gan
Neil Davies, Cyfarwyddwr
Gwasanaethau Ystadau
Arbenigol**



Mae'r cyfnod pontio o'r haf i'r hydref yn cyd-fynd â thymor y cynadleddau gwleidyddol, lle y byddai pawb yn hel eu pac i lan y môr yn draddodiadol. Yn wreiddiol, byddai lleoliadau'n cael eu dewis am eu dewisiadau lu o lefydd rhad i aros yn hytrach na'r tywydd, a fyddai'n hollol annisgwyl i gynrychiolwyr yn aml, wrth i wyntoedd cryfion drechu sawl ymbarél a ddyluniwyd ar gyfer cawodydd yn Kensington yn hytrach na stormydd Blackpool.

Bu'r hydref yn dymor am gynadleddau ystadau a chyfleusterau cenedlaethol hefyd, ac roedd Cynhadledd Ystadau Gofal Iechyd Sefydliad Peirianeg Gofal Iechyd a Rheoli Ystadau, 'Where Innovation, Technology and Leadership Meet', yn goron ar y cyfan. Mae'n cynnwys arddangosfa masnach fwyaf y DU ar gyfer y sector, ac mae disgwyl bod dros 240 o arddangoswyr a 4,500 o fynychwyr yn bresennol. Mae cynhadledd eleni hefyd yn cynnal Cynhadledd International Federation of Hospital Engineering (IFHE) Ewrop, ac mae'r cynnwys yn rhoi dimensiwn mwy rhyngwladol.

Mae'r gynhadledd yn integreiddio pedair ffrwd waith: Strategaeth ac Arweinyddiaeth, Peirianeg a Rheoli Cyfleusterau, Cynllunio, Dylunio ac Adeiladu ac Arloesi. Mae'r gynhadledd yn cynnwys dros 70 o gyflwyniadau yn ystod y ddau ddiwrnod. Mae'n gyfle gwych i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau a safbwyntiau ym maes ystadau a chyfleusterau gofal iechyd, i ymweld ag arddangosfeydd masnach ac i rwydweithio â chydweithwyr ledled y DU a thu hwnt.

Yn ogystal, gall y gynhadledd fod yn elfen bwysig o ofynion eich Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

Cynhelir cynhadledd eleni ar 8 a 9 Hydref yn Manchester Central Convention Complex, ychydig ddyddiau ar ôl i'r un lleoliad gynnal Cynhadledd y Blaid Geidwadol. Cymaint ag y byddech yn hoffi ei osgoi, rydw i'n amau y bydd y ddwy gynhadledd yn gwneud ambell gyfeiriad at Brexit!

Cofion, Neil

Neil.Davies4@wales.nhs.uk | 02920 905382

Yn y rhifyn hwn...

Tîm Eiddo wedi'i gydnabod gan Gofrestrfa Tir EM

Tudalen 1

Fforwm Endosgop Cymru Gyfan

Tudalen 2

Newyddion Staff

Tudalen 3

Y Gwasanaeth Defnyddio Gofod OccupEye

Tudalen 4

Cyhoeddiadau Technegol Diweddaraf

Tudalen 5

Clwb 'On Yer Bike'

Tudalen 5

Y Gornel Hanes: Ysbyty Dewi Sant, Pontypridd

Tudalen 6

Dyfarniad Eiddo gan Gofrestrfa Tir EM



Canol: Shane Bartlett, Pennaeth Strategaeth Sector Cyhoeddus Cofrestrfa Tir EM yn rhoi ardystiad Gwasanaethau Ystadau Arbenigol i Clive Ball, Pennaeth Eiddo. Hefyd yn y llun, o'r chwith i'r dde, mae Kyle Robinson o Dîm Ymgysylltu Sector Cyhoeddus Cofrestrfa Tir EM, a Mark Miller, Lowri Evans a Jamie Evans o Dîm Eiddo Gwasanaethau Ystadau Arbenigol.

Mae ein hadran Eiddo wedi cael ei chydnabod gan Gofrestrfa Eiddo EM am ei gwaith wrth gofrestru'r holl asedau tir rhydd-ddaliadol – y corff cyhoeddus cyntaf yn Lloegr a Chymru i gwblhau hyn.

Teithiodd Shane Bartlett, Pennaeth Strategaeth Sector Cyhoeddus Cofrestrfa Tir EM i Dŷr Cwmniau yng Nghaerdydd i roi tystysgrif cwblhau i Clive Ball, Pennaeth Eiddo Gwasanaethau Ystadau Arbenigol ac i gwrdd â'r tîm a wireddodd hyn.

Meddai Shane: *"Mae bod y corff cyhoeddus cyntaf yn Lloegr a Chymru i gwblhau'r gwaith o gofrestru ei asedau tir rhydd-ddaliadol yn garreg filltir fawr ac mae'n gamp y dylai'r tîm deimlo'n hynod o falch ohono."*

"Mae'n dangos ymrwymiad cadarnhaol gan Dîm Eiddo Gwasanaethau Ystadau Arbenigol i sicrhau ei fuddiannau o dan warant gwladwriaeth Cofrestrfa Tir EM ac i gefnogi ymrwymiad y llywodraeth at dryloywder."

Nid yw tua 14% o dir yn Lloegr nac yng Nghymru wedi'i gofrestru (19% yng Nghymru), ac mae Cofrestrfa Tir EM yn anelu at sicrhau bod yr holl dir rhydd-ddaliadol wedi'i gofrestru erbyn 2030. I ddechrau, y nod yw blaenoriaethu cofrestru tir sector cyhoeddus ac eiddo erbyn 2025.

Sefydlwyd Tîm Ymgysylltu Sector Cyhoeddus Cofrestrfa Tir EM ym mis Ionawr 2018 i weithio

gyda phob corff sector cyhoeddus i gofrestru ei dir anghofrestredig er mwyn sicrhau cofrestriad cynhwysfawr, sy'n elfen bwysig o'i strategaeth busnes.

Er i gofrestru tir ddod yn gwbl orfodol yn Lloegr a Chymru yn 1990, mae Tîm Eiddo Gwasanaethau Ystadau Arbenigol ers hynny wedi gweithio'n agos gyda Chofrestrfa Tir EM i sicrhau bod unrhyw dir neu eiddo y mae'r GIG yn berchen arno ac na chafodd ei gofrestru cyn 1990, yn cael ei gofrestru yn wirfoddol.

Yn ystod 2018, gweithiodd Mark Miller, Swyddog Eiddo ynghyd â Lowri Evans a Jamie Evans, Swyddogion Technegol Cynorthwyol, gyda Tîm Ymgysylltu Sector Cyhoeddus Cofrestrfa Tir EM i graffu ar ystâd GIG Cymru i sicrhau bod pob daliad wedi'i gydnabod.

Meddai Clive Ball, Pennaeth Eiddo: *"Ers tro, mae Tîm Eiddo Gwasanaethau Ystadau Arbenigol wedi cydnabod buddion cofrestru tir ac eiddo."*

"Rydyn ni wrth ein bodd o fod wedi cael ein cydnabod gan Gofrestrfa Tir EM am gwblhau rhaglen wirfoddol o gofrestru asedau rhydd-ddaliadol ar ran GIG Cymru – y corff cyhoeddus cyntaf yn Lloegr ac yng Nghymru i gael ei gydnabod."



Clive Ball | Pennaeth Eiddo
Clive.Ball@wales.nhs.uk | 0292090 4106

Fforwm Endosgop Cymru Gyfan



Roedd yn dŷ llawn yn Fforwm Endosgop Cymru Gyfan wrth i gydweithwyr o bob cwr o Gymru ddod at ei gilydd i drafod materion ac i rannu arfer gorau.

Cynhaliodd ein hadran Peirianeg seminar a gweithdy undydd yn Llanfair ym Muallt ym mis Mehefin ar gyfer yr holl Personau Awdurdodedig/Awdurdodi ledled y byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau yng Nghymru i roi diweddariad ar faterion sy'n effeithio arnynt o safbwynt Peiriannydd Awdurdodi.

Yn ogystal â bod yn gyfle da i ddysgu, roedd yn ddigwyddiad gwych i Personau Awdurdodedig/Awdurdodi rwydweithio ledled yr holl ddisgyblaethau peirianeg. Teithiodd dros 60 o gynrychiolwyr o bob cwr o GIG Cymru i Faes Sioe Frenhinol Cymru ar gyfer y seminar.

John Prendergast, Uwch Beiriannydd Dadhalogi yng Ngwasanaethau Ystadau Arbenigol, agorodd y diwrnod a gosod yr agenda ar gyfer y diwrnod.

Y cyntaf i roi cyflwyniad oedd Steve Wilton, Rheolwr Cynhyrchu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, a edrychodd ar y gwaith o lanhau endosgopau â llaw, ac yna John Jepson o Envirogen, a roddodd sgwrs am y dulliau o buro dŵr.

Rhoddodd cynrychiolwyr PFE Medical, sef Sohail Shami a Vanessa Blount, gyflwyniad ar ddiheintio endosgopau Clust, Trwyn a Gwddf trwy ddefnyddio UV.

Ar ôl cinio, edrychodd Graham Stanton o Sefydliad Peirianeg Gofal Iechyd a Rheoli Ystadau, ar

y polisi ar brosesau penodi rôl y Personau Awdurdodedig/Awdurdodi cyn i'n Peiriannydd Dadhalogi, Mark Fumage, roi sgwrs gynhwysfawr ar rôl a chyfrifoldebau'r Person Awdurdodedig/Awdurdodi (Dadhalogi). Yna, rhoddodd Andrew Kidger, Swyddog Ystadau, ei farn am rôl y Person Awdurdodedig/Awdurdodi (Dadhalogi).

Atgyfnerthodd Kenny Ader o Cantel bwysigrwydd storio cemegion yn gywir. Cafodd trafodaethau eu hagor i'r cynrychiolwyr, gyda phwyntiau difyr i feddwl amdanynt, gan gynnwys dadhalogi endosgopau ym maes Gofal Sylfaenol a phwysigrwydd adolygu polisiâu a chymhwysedd hyfforddwy.

Roedd nifer o noddwyr yn cefnogi'r diwrnod, gan gynnwys Serchem, Cantel, PFE Medical, Isopharm, Getinge, Steris, iMed, Wassenburg, MMM Group, Pentax a LTE.



Bu'r gynhadledd yn llwyddiannus iawn yn ôl cynrychiolwyr, gyda mynychwyr yn dweud y canlynol:

"Roedd y cyflwyniad dŵr yn anhygoel. Wnes i fwynhau'r trafodaethau grŵp hefyd i roi cipolwg gwell ar ddadhalogi."

"Digwyddiad da ym mhob ffordd"

"Roedd yr agenda gyffredinol yn berthnasol ac yn llawn gwybodaeth"

"Da a llawn gwybodaeth"

"Ardderchog – pynciau wedi'u darparu'n dda"

Os ydych yn dymuno cael rhagor o wybodaeth am gyflwyniadau'r gynhadledd, neu am unrhyw ddiwyddiadau yn y dyfodol, cysylltwch â:



John Prendergast

Uwch Beiriannydd Dadhalogi

John.Prendergast@wales.nhs.uk | 0292090 4097

Newyddion Staff



David
Meatyrd



Kevin
Ridge



Nicole
Kruger



Simon
Russell



Stuart
Hanger



Charlotte
Egerton



Craig
Morgan

Ers rhifyn mis Mai, gwnaeth **David Meatyard**, Prif Ymgynghorydd Ystadau, ymddeol, fel y cynlluniwyd. Ddiwedd mis Mehefin, gwnaeth **Kevin Ridge**, ein Pennaeth Peirianeg, ymddeol wedi wyth mlynedd o wasanaeth i Wasanaethau Ystadau Arbenigol.

Ym mis Mai, gadawodd **Nicole Kruger**, ein Syrfëwr Eiddo (Gofal Sylfaenol), Wasanaethau Ystadau Arbenigol i weithio yn agosach at ei chartref ym Mryste – 15 munud o gerdded i'r gwaith yn hytrach na 90 munud o yrru!

Gwnaeth y tri gyfraniad sylweddol at ddarparu gwasanaethau proffesiynol rhagorol i'n cwsmeriaid a byddwn ni'n gweld eu heisiau yn fawr.

Mae **Simon Russell**, Prif Beiriannydd Trydanol, wedi cael ei benodi fel y Pennaeth Peirianeg newydd, a dechreuodd ei ddyletswyddau ar 1 Gorffennaf.

Rhyw chwe mis ar ôl i'n Hymgyngorydd Diogelwch Tân blaenorol adael, rydyn ni'n falch o gyhoeddi penodi **Stuart Hanger**. Mae Stuart,

a ddechreuodd gyda ni ar 8 Gorffennaf, wedi bod yn gweithio i Serco yn ddiweddar fel Rheolwr Diogelwch Tân a Chydymffurfiaeth ond, cyn hynny, bu'n gweithio am 23 o flynyddoedd i'r Llu Awyr Brenhinol.

Dechreuodd **Charlotte Egerton** a **Craig Morgan**, a gafodd eu croesawu i Wasanaethau Ystadau Arbenigol ym mis Awst, yn eu swyddi fel Syrfëwr Eiddo (Gofal Sylfaenol) ac Ymgynghorydd Rheoli Cyfleusterau a'r Amgylchedd, yn y drefn honno.

Symudodd Charlotte yn ôl i Gymru o swydd yn y sector preifat yn Swydd Amwythig i ymuno â ni ac mae ganddi gyfoeth o brofiad fel syrfëwr, a enillodd yn bennaf wrth weithio mewn cynghorau lleol yng Nghymru. Mae Craig wedi ymuno â ni o'r Tîm Rheoli Cyfleusterau yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru.

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â Gwasanaethau Ystadau Arbenigol, gellir gweld y swyddi gwag rydyn ni'n eu hysbysebu [yma](#).

Gwasanaeth Defnyddio Gofod OccupEye

Gan fod gofod yn ddrud, mae'n ddyletswydd arnon ni, fel sefydliadau sector cyhoeddus, i wneud y defnydd mwyaf effeithlon ohono â phosibl. Nid yw defnydd aneffeithlon o ofod yn rhywbeth sydd fel arfer yn broblem i aelodau staff arferol y GIG. Fodd bynnag, hyd yn oed pan yw defnydd aneffeithlon o ofod yn broblem a chydabyddir bod gofod yn cael ei ddefnyddio'n wael, ni fydd tystiolaeth ond yn anecdotaidd fel arfer.

Cododd cyfle i gael cyllid ar ddiwedd 2018, a alluogodd Gwasanaethau Ystadau Arbenigol i greu gwasanaeth a all bellach ddarparu'r dystiolaeth angenrheidiol ar gyfer gwneud penderfyniadau i gefnogi newid.

Mae'r gwasanaeth yn ymwneud ag OccupEye, sef system a ddyluniwyd i gasglu data am ofod trwy synwryddion symudiadau a gwres PIR diwifr, a osodir o dan ddesgiau.



Mae'r synwryddion yn dal presenoldeb aelod o staff trwy symudiadau neu wres ac yn trosglwyddo'r data i dderbynnydd rhwydwaith sydd, yn ei dro, yn trosglwyddo'r data ar system ddadansoddeg gwmwl, a all ddarparu gwybodaeth amser real am ddefnydd o ofod i'r cwsmer. Gall y synwryddion gael eu gwasgaru am unrhyw gyfnod o amser i ddiwallu eich anghenion.

Mae rhai manteision o wasgaru synwryddion OccupEye fel a ganlyn:

- Gwell strategaethau llety ac ystadau;
- Y potensial i wneud gofod nad yw'n cael ei ddefnyddio'n aml yn rhydd ar gyfer y preswlydd cyfredol neu i'w wneud ar gael i'r farchnad; a
- Sicrhau arbedion pe bai gofod ar gael i'w ddefnyddio.

Mae ein gwasanaeth OccupEye yn rhad ac am ddim i bob sefydliad yn GIG Cymru. Bydd y gwasanaeth fel arfer yn cynnwys:

- Arolwg o'r ardal ddynodedig;
- Gwasgaru synwryddion a'r derbynnydd rhwydwaith h.y. eu gosod o dan ddesgiau ac mewn ystafelloedd cyfarfod os oes angen;
- Datblygu cynllun llawr ar gyfer yr ardal astudio os nad yw eisoes ar gael;
- Creu prosiect ar system ddadansoddeg gwmwl;
- Darparu gwybodaeth y gellir ei defnyddio yn ystod y cyfnod astudio;
- Creu a darparu adroddiad yn amlinellu canlyniad y data a gasglwyd yn nangosfwrdd dadansoddeg OccupEye unwaith y bydd yr astudiaeth wedi'i chwblhau; a
- Rhoi cymorth proffesiynol yn ymwneud ag eiddo yn ôl y gofyn i helpu â'r gwaith o weithredu canfyddiadau'r adroddiad

Mae'n bwysig nodi na fydd unrhyw ddata personol yn cael eu casglu yn y broses hon. Bydd pob desg yn cael ei rhifo yn y system at ddibenion dangosfwrdd yn unig. Mae llythyrau safonol yn amlinellu'r broses ac yn lleddfu unrhyw bryderon ynghylch staff yn cael eu hadnabod yn ystod y prosiect ar gael i gwsmeriaid eu cyflwyno i staff sy'n gweithio yn ardal yr arolwg.

Ar hyn o bryd, mae gennym 190 o synwryddion felly os oes gennych ddiddordeb mewn darganfod rhagor am y gwasanaeth a'r system, cysylltwch â naill ai:



Martin Cooper | Rheolwr Busnes
Martin.Cooper@wales.nhs.uk | 0292090 4085



Clive Ball | Pennaeth Eiddo
Clive.Ball@wales.nhs.uk | 0292090 4106



Andrew Nash | Prif Syrfëwr Eiddo
Andrew.Nash@wales.nhs.uk | 0292090 4111

I archebu'r gwasanaeth, defnyddiwch y cyfeiriad e-bost canlynol: SES.OccupEye@wales.nhs.uk.

Cyhoeddiadau Technegol Diweddaraf

Mae'r ddogfen ganlynol wedi'i chyhoeddi gan Wasanaethau Ystadau Arbenigol ers mis Ebrill 2019:

 **WHBN 04-01: Cyfleusterau Cleifion Mewnol i Oedolion: Atodiad 2 – Ystafelloedd Pwysau Negyddol**
(Cyhoeddwyd 24/06/19)

Mae'r ddogfen hon yn rhoi arweiniad ymarferol ar sut i ddarparu cyfleusterau arwahanu effeithiol a diogel ar gyfer cleifion â chlefydau heintus (arwahanu'r ffynhonnell), sy'n hawdd eu defnyddio ac sy'n bodloni gofynion Llywodraeth Cymru, fel yr amlinellir yn WHC (2018) 033.

Nodiadau Adeilad Iechyd Cymru (WHBNs) - Dogfennau canllaw ar gyfer cynllunio a dylunio ystod o adeiladau gofal iechyd sy'n darparu gwasanaethau arbenigol yng Nghymru.

Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) Dogfennau sy'n rhoi arweiniad technegol ar ystod eang o systemau arbenigol yn ystâd gofal iechyd Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:



Jessica Morgan | Swyddog Gwybodaeth
Jessica.Morgan2@wales.nhs.uk | 0292090 4118

Clwb 'On Yer Bike'

Mae cydweithwyr yng Ngwasanaethau Ystadau Arbenigol yn defnyddio pŵer pedalaui i gadw'n heini gyda chlwb beicio cymdeithasol newydd o'r enw On Yer Bike Club!

Wrth feddwl am lesiant, cwrw a choffi, sefydlwyd y clwb gan Paul Cottrell, Syrfëwr Eiddo, gyda'r nod o archwilio llwybrau beicio ledled y De a thu hwnt. Oherwydd ei fod yn agored i bawb yng Ngwasanaethau Ystadau Arbenigol, ymunodd y beicwyr brwdfrydig canlynol â Paul yn y clwb; y Rheolwr Busnes Martin Cooper, y Prif Syrfëwr Eiddo Andrew Nash, y Rheolwr Fframwaith Kevin Ray, yr Uwch Ymgynghorydd Diogelwch Tân Anthony Pitcher, Gweithredwraig CAD Lowri Evans a'r Prif Gynghorwr Ystadau David Meatyard sydd wedi ymdeol yn ddiweddar.

Roedd taith gyntaf y clwb yn cynnwys beicio o Dŷ'r Cwmniau yng Nghaerdydd drwy Farina Penarth ac i Fae Caerdydd am luniaeth haeddiannol (yn y llun) cyn beicio yn ôl i'r swyddfa, sef taith sylweddol o 12 milltir yn ei chyfanrwydd. Oherwydd llwyddiant y daith a'r farn y bydd y clwb yn mynd o nerth i nerth, mae Paul wedi addo stopio beicio mewn jîns a bydd yn prynu ac yn gwisgo siorts leicra gyda phadin digonol yn lle. Mae aelodau eraill y clwb wedi addo peidio â chwerthin.



Mae cynlluniau ar y gweill i fynd ar ragor o deithiau beicio ar draws Caerdydd, y Fro a Chaerffili, dros yr wythnosau a'r misoedd i ddod. Peidiwch ag anghofio rhoi caniad i'ch corn os byddwch yn ein gweld yn rhwystro'r traffig yn eich ardal chi!

Meddai Paul, yr arweinydd: *"Rydym yn cymryd ymarfer corff o ddifrif yng Ngwasanaethau Ystadau Arbenigol ac mae cerdded yn ôl ac ymlaen i'r llungopiwr a chodi cwpanau o goffi neu de i'n cegau yn rhai enghreifftiau yn unig o hyn. Beicio oedd y cam nesaf amlwg, a phwy a wŷr beth fydd nesaf."*

Y Gornel Hanes: Ysbyty Dewi Sant, Pontypridd



Ar wahanol ffurfiau, mae Gwasanaethau Ystadau Arbenigol wedi bod â chysylltiad hirsefydlog â'r ystâd iechyd yng Nghymru. Mae'n anodd rhagweld dyfodol adeiladu ysbytai yng Nghymru, ond mae'r gorffennol wedi'i gofnodi yn ein harchifau. Rydym yn gobeithio y bydd yr erthygl ganlynol o ddi-ddordeb ichi.


Mae cael cysylltiadau teithio da i ysbytai yn hanfodol ac, os edrychwch yn ofalus ar faes parcio Ysbyty Dewi Sant ym Mhontypridd, gallwch weld darn o hanes trafniadaeth.

Roedd gan yr ysbyty nid yn unig ei dwynel rheilffordd ei hun, a redai o dan y Graig a Threfforest, ond roedd ganddo hefyd ei orsaf ei hun, a fyddai'n gollwng teithwyr yn union y tu allan i'r adeilad dros 100 mlynedd yn ôl.

Cafodd yr ysbyty ar Heol Albert, Graig, ei adeiladu'n wreiddiol fel Wyrwys Undeb Pontypridd ym 1865. Cafodd ei ddylunio gan G.E. Robinson o Gaerdydd. Costiodd tua £7,000 (sy'n cyfateb i tua £860,000 heddiw) a gallai ddal dros 310 o bobl.

Cafodd y rheilffordd ei agor yn ddiweddarach ar 8 Gorffennaf 1889; yn gyntaf i fynd â glo o'r Rhondda i Ddociau Caerdydd, cyn ei agor i deithwyr ym 1896.

Ar droad yr ugeinfed ganrif, ymestynnwyd y wyrwys i gynnwys ysbyty ac ysbyty neilltuo. Yn ddiweddarach, cafodd yr ysbyty ei adnabod fel Central Homes cyn cael ei enwi'n Ysbyty'r Graig ar gyfer y rhai a chanddynt salwch cronig o dan y GIG.



Ym mis Gorffennaf 1930, caewyd y rheilffordd am byth ac, er y gellid gweld y plattform o hyd tan y 1970au, diflannodd hwnnw hefyd o dan y maes parcio. Fodd bynnag, gellir gweld mynedfa'r twnnel heddiw – ym maes parcio'r ysbyty – tra bo mynedfa'r twnnel deheuol ar dir Prifysgol De Cymru ym Mhontypridd.

Yn ystod canol yr 1960au, cafodd yr adeiladau gwreiddiol ar y safle eu dymchwel ac adeiladwyd Ysbyty Dewi Sant. Yn y llun uchod, gweler yr adeiladau gwreiddiol ac adeiladwaith yr ysbyty modern.

Mae gan Wasanaethau Ystadau Arbenigol lyfrgell luniau helaeth o ystadau ysbyty yng Nghymru a byddem yn croesawu unrhyw luniau a allai ehangu ein cofnodion. I gyflwyno lluniau, neu os hoffech i ni gynnwys eich ysbyty mewn rhifyn o'r cylchlythyr hwn yn y dyfodol, cysylltwch â:



Jessica Morgan | Swyddog Gwybodaeth
Jessica.Morgan2@wales.nhs.uk | 0292090 4118

Cysylltu â Gwasanaethau Ystadau Arbenigol



Gall y rhai sy'n gweithio yn GIG Cymru ddefnyddio naill ai ein [cyfeiriadur gwasanaethau](#) neu [restr o staff](#) i ddod o hyd i'r person iawn i wneud y gwaith, a gall y rhai nad ydynt yn gweithio i GIG Cymru ddefnyddio'r rhestr o staff ar ein [gwefan](#).



Gwasanaethau Ystadau Arbenigol
3ydd llawr, Tŷ'r Cwmnïau
Ffordd y Goron
Caerdydd
CF14 3UB



02920 904118



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Partneriaeth
Cydwasaethau
Shared Services
Partnership